

## Swydd Ddisgrifiad: Swyddog Datblygu Cymunedol

### Menter Iaith Maelor

Prif Gyfrifoldebau:-

*Datblygu Prosiectau:-*

- Cynnal arolwg manwl o sefyllfa'r iaith Gymraeg yn Wrecsam gan gyd weithio gyda'r staff eraill a'r partneriaid i ddatblygu'r Proffil Iaith a'r Rhaglen Weithredu.
- Drwy broses o ymgynghori eang asesu anghenion cymunedau'r sir o safbwynt gweithgareddau cyfrwng Cymraeg
- Meithrin a datblygu cysylltiadau agos gyda grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol
- Meithrin cysylltiadau a datblygu partneriaethau gyda'r prif ddarparwyr i'r sector wirfoddol, sector gyhoeddus a'r sector breifat
- Cydlynu a threfnu gweithgareddau blaengar a deniadol ar y cyd â phartneriaid y Fforwm Sirol
- Paratoi ceisiadau am nawdd ar gyfer datblygu a chyllido prosiectau a gweithgareddau
- Sefydlu a chynorthwyo Pwyllgorau Ardal mewn ardaloedd ieithyddol penodol
- Darparu cyfleoedd i drigolion y sir gael mynediad i ddigwyddiadau ieithyddol, diwylliannol a chelfyddydol mewn meysydd megis drama, celf, dawns a chwaraeon
- Dylanwadu ar bolisi iaith y Cyngor Bwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog o fewn y sir, megis nifer o gyrsiau hamdden a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg
- Datblygu prosiectau penodol a flaenoriaethwyd yng Nghynllun Corfforaethol Menter Iaith Maelor
- Mynychu cyfarfodydd ar ran y Prif Swyddog pan fo angen
- Cefnogi unrhyw weithgaredd sy'n bodoli eisoes trwy gyfrwng y Gymraeg a threfnu gweithgareddau lle mae bylchau yn y ddarpariaeth ar y cyd â'n partneriaid

*Marchnata a Hyrwyddo:-*

- Hyrwyddo gweithgareddau blaengar a phoblogaidd sydd yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol a hwyliog
- Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu Cynllun Marchnata ar gyfer Menter Iaith Maelor
- Codi proffil y Fenter yn y wasg leol a chenedlaethol;
- Paratoi datganiadau ac erthyglau cyson a'u dosbarthu i'r wasg a'r cyfryngau;
- Codi proffil y Fenter a hyrwyddo ei gwaith trwy ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol;

- Datblygu perthynas dda gyda’r wasg Cymraeg a Saesneg a sicrhau bod cyhoeddusrwydd rheolaidd yn cael ei roi i waith y Fenter a digwyddiadau diwylliannol eraill;
- Diweddarau gwybodaeth ar wefan y Fenter yn rheolaidd
- Meithrin cysylltiadau da gyda’r gorsafoedd radio lleol a sicrhau cyfleodd am sgwrs i hybu gweithgareddau amrywiol;
- Datblygu perthynas weithredol dda gyda golygyddion y papurau bro a bwydo erthyglau a lluniau cyson iddynt am weithgareddau’r Fenter;
- Cyfrannu at bob rhifyn o newyddlen dwyieithog y Fenter a’i ddsbarthu i gefnogwyr y Fenter a phartneriaid eraill;
- Hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg yn y sector preifat
- Hyrwyddo a chefnogi’r defnydd o’r Gymraeg yn y sector gyhoeddus a wirfoddol,
- Sicrhau nawdd gan y sector busnes i brosiectau penodol;
- Trefnu ymgyrchoedd marchnata o gwmpas digwyddiadau neu wyliau arbennig e.e. Gŵyl Santes Dwynwen, Gŵyl Ddewi, Dydd Owain Glyndŵr.

### Telerau’r Swydd

#### **Cyflog Cychwynnol Pwynt 18 NJC:**

£17,714 - pro rata. Telir pensiwn hyd at 6% i mewn i gynllun rhanddeiliaid “stakeholder”

#### **Costau Teithio:**

Telir costau teithio o 45c y filltir.

#### **Oriau Gwaith:**

37 awr yr wythnos. Yn ddelfrydol bydd hon yn swydd amser llawn ond gellir ystyried ymgeiswyr sydd am weithio rhan amser.

#### **Gwyliau:**

24 diwrnod y flwyddyn pro rata . Nid yw hyn yn cynnwys gwyliau banc.

#### **Hyd y Contract:**

Cyfnod penodol hyd at 31ain Mawrth 2016 gyda’r posibilrwydd o barhad yn ddibynnol ar gyllid digonol.

#### **Strwythur Rheoli:**

Byddwch yn gweithio o dan gyfarwyddyd Prif Swyddog Mentrau Iaith Sir y Fflint a Maelor. Byddwch yn atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Maelor.

#### **Rhybudd Terfynu Swydd:**

1 mis

#### **Lleoliad:**

Corlan, Uned 3, Parc Busnes yr Wyddgrug, yr Wyddgrug, CH7 1XP